Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC


Mai 2020

**Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2020, yn ôl data gan Defra, lladdwyd 1.9% yn fwy o wartheg dethol nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach.  Y prif reswm am hyn oedd y galw cynyddol yn ystod mis Mawrth. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, lladdwyd 9.2% yn llai o ŵyn dethol.  Bydd bwletin y farchnad y mis hwn yn trafod y canlyniadau hyn yn fanylach.**

## GWARTHEG

Mae'r pandemig coronafeirws cyfredol wedi cael effaith ar y gadwyn gyflenwi cig eidion yn ystod y misoedd diwethaf. Mae ystadegau gan Defra yn dangos bod cyfanswm o 156,900 o wartheg dethol wedi eu llall yn lladd-dai'r DU yn ystod mis Ebrill, sef 4.3% yn llai nag ym mis Mawrth, a 3.2% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Roedd y nifer o wartheg llawn dwf a laddwyd ym mis Ebrill hefyd yn is nag yn 2019 (-20.2%), ac yn 3.4% yn llai nag mis Mawrth eleni.

Wrth ystyried pedwar mis cyntaf eleni, mae cyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd yn lladd-dai'r DU yn 1.9% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Un o'r rhesymau pennaf am y cynnydd yw bod 12,200 (4.5%) yn fwy o heffrod wedi eu lladd nag yn 2019. Yn ystod mis Mawrth cafwyd cynnydd sylweddol yng nghyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd, sef 10.0% yn fwy nag ym mis Mawrth 2019.





Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu taw'r rheswm am hyn oedd bod y cyflenwyr yn ceisio dal i fyny â'r galw gan y defnyddwyr. Gwerthwyd 45% yn fwy o friwgig eidion yn ystod mis Mawrth (ffynhonnell: Kantar Worldpanel). Ar yr un pryd, roedd y cynhyrchwyr yn awyddus i werthu gwartheg wedi pesgi yn gynt nag y byddai disgwyl, o bosibl er mwyn osgoi unrhyw broblemau yn ymwneud â phandemig Covid-19 yn y gadwyn gyflenwi yn ystod y misoedd nesaf. Hyd yma, ar gyfartaledd, mae carcasau gwartheg dethol yn ystod 2020 wedi bod yn drymach nag yn 2019, gyda charcasau bustych ar gyfartaledd yn 365.3kg (+ 0.9kg), heffrod yn 329.8kg (+ 2.9kg), a theirw ifanc yn 325.9kg (+ 4.2kg).

Roedd cyfanswm y gwartheg llawn dwf a laddwyd yn lladd-dai'r DU hyd at fis Ebrill eleni yn 214,300 - sef 1.2% yn llai nag yn 2019. Mae'r cynnydd yn y nifer o wartheg dethol a laddwyd, ynghyd â charcasau trymach ar gyfartaledd, wedi golygu bod cyfanswm y cig eidion a chig llo a gynhyrchwyd yn ystod 4 mis cyntaf eleni (sef 304,600 tunnell) yn 1.9% yn fwy na'r cyfanswm yn y cyfnod cyfatebol yn 2019.


## DEFAID

Yn ystod pedwar mis cyntaf eleni, lladdwyd cyfanswm o 4.2 miliwn o ddefaid yn lladd-dai'r DU. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol (- 8.6%) mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, ac mae'r ystadegau'n dangos taw gostyngiad yn nifer yr ŵyn dethol sy'n bennaf gyfrifol.  Lladdwyd 3.6 miliwn o ŵyn dethol hyd yma eleni, sef 9.2% yn llai nag yn y pedwar mis cyfatebol yn 2019. Nid oedd cymaint o alw am gig oen yn ystod cyfnod y Pasg eleni am fod cynifer o bobl yn gaeth i'w cartrefi. Mae'r gostyngiad hwn, gartref a thramor, yn cael ei adlewyrchu yn ystadegau Defra, sy'n dangos fod cyfanswm yr ŵyn dethol a laddwyd ym mis Ebrill yn 835,900 pen, sef gostyngiad o 21.4% (neu 227,800 pen).

Er i 12.1% yn fwy o ddefaid llawn dwf gael eu lladd yn ystod mis Ebrill nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, roedd y cyfanswm o 527,600 pen ar gyfer pedwar mis cyntaf eleni yn ostyngiad o 4.0%. Mae'n bosibl taw'r rheswm am y cynnydd yn ystod mis Ebrill oedd y galw cynyddol adeg yr Ŵyl Fwslimaidd, Ramadan, ynghyd â'r ffaith fod ffermwyr





yn awyddus i werthu anifeiliaid oherwydd ansicrwydd a'r posibilrwydd y gallai'r tywydd sych eithriadol arwain at brinder porfa. Yn ystod y flwyddyn hyd at Ebrill 2020, mae carcasau ar gyfartaledd wedi bod ychydig yn ysgafnach nag 2019. Roedd cyfartaledd pwysau carcasau ŵyn dethol yn 20.2kg (-0.3kg) a charcasau defaid llawn dwf yn 25.9kg (-1.7kg). Oherwydd y carcasau ysgafnach a'r gostyngiad yn nifer y defaid a laddwyd, dim ond 87,000 tunnell o gig defaid a gynhyrchwyd rhwng mis Ionawr a mis Ebrill. Mae hynny'n 10.3% (10,030 tunnell) yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2019.





## GWARTHEG

Roedd y pris pwysau byw am gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 185.8c/kg am yr wythnos yn diweddu 16 Mai - 1.5c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, a 2.8c yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol yn 2019. Mae'r pris ar hyn o bryd yn 1.6c yn is na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 184.2c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben 16 Mai, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog am fustych yng Nghymru a Lloegr yn 325.1c/kg, sef 5.7c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, ond 19.9c yn is nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Roedd prisiau pwysau marw heffrod yn 325.6c/kg, sef 5.8c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, a prisiau teirw ifanc yn 317.7c/kg (+5.9p) a phrisiau buchod difa yn 227.6c/kg (+8.2p).





Lladdwyd cyfanswm o 208,500 o wartheg yn lladd-dai'r DU ym mis Ebrill - 5.2% yn llai nag ym mis Ebrill 2019. Lladdwyd 156,900 o wartheg dethol, sef 3.2% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, a 14.3% yn llai nag yn y mis blaenorol. O fewn y cyfanswm hwn, roedd y gostyngiad mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer bustych, sef 6.0% yn llai na'r llynedd. Lladdwyd 3.4% yn llai o wartheg llawn dwf na'r llynedd a 20.2% yn llai nag yn y mis blaenorol. Golygodd y gostyngiad sylweddol yn nifer y gwartheg a laddwyd fod llai o gig eidion a chig llo wedi cael eu cynhyrchu ym mis Ebrill, sef gostyngiad o 3.3% i 68,800 tunnell o'r naill flwyddyn i'r llall (y cyfaint misol isaf oddi ar fis Ebrill 2017).





## DEFAID

Mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) cyfartalog ym marchnadoedd da byw Cymru wedi sefydlogi oddi ar y cyfyngiadau symud ar bobl yn y DU ac mae'n tueddu i fod yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Roedd y pris cyfunol am ŵyn hen dymor ac ŵyn tymor newydd yn yr wythnos yn diweddu 16 Mai yn 244.2c/kg, sef 19.0c yn fwy nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019, ac 18.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5-mlynedd (cyfartaledd 2015-2019: 225.7c/kg). Yn yr wythnos yn diweddu 16 Mai, roedd y prisiau pwysau marw am ŵyn ym Mhrydain yn 475.4c/kg – 4.5c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol.





Cyfanswm yr holl ddefaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Ebrill oedd 984,200, sef 17.7% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd, a 6.3% yn llai nag ym mis Mawrth. Lladdwyd llai dipyn o ŵyn dethol nag yn yr un cyfnod y llynedd. Roedd y nifer a laddwyd yn 835,900 pen, sef 21.4% (neu 227,800 pen) yn llai, ond cafwyd cynnydd o 12.1% yn nifer y mamogiaid a hyrddod difa a laddwyd. Wrth edrych ar ŵyn y cyfnod rhwng Mai 2019 i Ebrill 2020, mae niferoedd yr ŵyn dethol (sef 12.8 miliwn) yn 0.6% yn is nag oeddent flwyddyn yn gynharach. Am y cafodd llai lawer o ŵyn dethol eu lladd ynystod y mis, roedd cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd (sef 21,000 tunnell) yn 19.6% yn is nag yn y flwyddyn flaenorol.




## MOCH

Roedd Prisiau'r Holl Foch (APP) Manyleb-UE ym Mhrydain yn 167.3c/kg am yr wythnos a ddaeth i ben ar 09 Mai, sef rhywbeth yn debyg (+0.2c) i'r hyn ydoedd yn yr wythnos flaenorol, a 20.6c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain yn yr wythnos yn diweddu 09 Mai yn £59.14, sef 29.3% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, ac roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £42.64, sef 19.9% yn uwch na'r llyndd.




Cyfanswm y moch a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Ebrill oedd 932,800 pen, sef 2.8% yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd, ond 3.4% yn llai nag yn y mis blaenorol. Y prif reswm am y cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall oedd bod 21,400 pen (neu 2.4%) yn fwy o foch heb fagu wedi cael eu lladd, ynghyd â 20.0% yn fwy o hychod a baeddod. Fodd bynnag, roedd yr hychod a baeddod yn 4.2kg yn ysgafnach ar gyfartaledd, sy'n awgrymu y cawsant eu gwerthu'n gynt nag arfer oherwydd ansicrwydd masnachol a'r galw mawr am allforion porc. Oherwydd y cynnydd sylweddol yn nifer y moch a laddwyd ym mis Ebrill, cynhyrchwyd 4.1% yn fwy o borc (cyfanswm o 81,700 tunnell) nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.